Gweinyddiaeth CYFIAWNDER

Ministry of JUSTICE

# Gweddnewid Ailsefydlu

## Chwyldro yn y ffordd yr ydym yn rheoli troseddwyr

**Ionawr 2013**

**Papur Ymgynghori CP1/2013**

Dyddiad dechrau'r ymgynghoriad: 9 Ionawr 2013

Dyddiad cau'r ymgynghoriad: 22 Chwefror 2013

# Gweddnewid Ailsefydlu

Chwyldro yn y ffordd yr ydym yn rheoli troseddwyr

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
trwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Ionawr 2013

Cm 8517 £10.75

**© Hawlfraint y Goron 2013**

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd fel deunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn transforming.rehabilitation@justice.gsi.gov.uk

Mae modd llwytho'r cyhoeddiad hwn i lawr yn www.official-documents.gov.uk ac ar ein gwefan yn www.justice.gov.uk

ISBN: 9780101851725

Argraffwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf
ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi
ID P002530852 01/13

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi’i ailgylchu.

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Ynghylch y cwestiynau ymgynghori yn y ddogfen hon | | 2 |
| Pwrpas y ddogfen | | 3 |
| Rhagair y Gweinidog | | 5 |
| Yr angen i Weddnewid Ailsefydlu | | 7 |
| Rhan A: Strategaeth ar gyfer Gweddnewid Ailsefydlu | | 11 |
| Adran 1: | Gwasanaethau'n cystadlu yn y gymuned | 14 |
| Adran 2: | Darparwyr sy'n mynd i'r afael ag achosion aildroseddu | 17 |
| Adran 3: | Ymestyn darpariaeth ailsefydlu i fwy o droseddwyr | 20 |
| Adran 4: | Rôl y sector cyhoeddus a gwarchod y cyhoedd | 22 |
| Adran 5: | Gwaith partneriaeth effeithiol rhwng darparwyr a'r sector cyhoeddus | 23 |
| Adran 6: | Dylunio strwythurol effeithlon | 25 |
| Adran 7: | Integreiddio â phartneriaethau lleol | 27 |
| Adran 8: | Fforddio’r system ddiwygiedig | 29 |
| Rhan B: Ymestyn ein rhaglen ddiwygio | | 30 |
| Rhan C: Cwestiynau ar Fanyleb y System | | 32 |

# Ynghylch y cwestiynau ymgynghori yn y ddogfen hon

| | |
|---|---|
| **At:** | Anelir yr ymgynghoriad hwn yn bennaf at weithwyr proffesiynol ym maes prawf, darparwyr gwasanaeth, y farnwriaeth, dioddefwyr, defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill. Rydym hefyd yn gwahodd aelodau o'r cyhoedd i ymateb. |
| **Cwestiynau:** | Gofynnir cwestiynau'r ymgynghoriad yn Rhan B a Rhan C y ddogfen. Mae'r cwestiynau wedi'u rhifo B1–B3 a C1–C19. |
| **Hyd:** | O 9 Ionawr 2013 hyd 22 Chwefror 2013 |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat gwahanol) at:** | Ymgynghoriad Gweddnewid Ailsefydlu<br>Y Weinyddiaeth Cyfiawnder<br>8.25, 102 Petty France<br>Llundain, SW1H 9AJ<br><br>020 3334 2477<br><br>transforming.rehabilitation@justice.gsi.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Anfonwch eich ymateb erbyn 22 Chwefror 2013 at:<br><br>Ymgynghoriad Gweddnewid Ailsefydlu<br>Y Weinyddiaeth Cyfiawnder<br>8.25, 102 Petty France<br>Llundain, SW1H 9AJ<br><br>transforming.rehabilitation@justice.gsi.gov.uk |
| **Ffyrdd ychwanegol i chi roi eich barn:** | Gellir cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar-lein hefyd drwy https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-rehabilitation. Hefyd bydd cyfres o ddigwyddiadau yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol yn cael eu cynnal.<br><br>I gael mwy o wybodaeth defnyddiwch y manylion cysylltu ar gyfer 'Ymholiadau' uchod. |
| **Papur ymateb:** | Cyhoeddir ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn yn: http://www.justice.gov.uk |

## Pwrpas y ddogfen

Mae’r papur hwn yn nodi cynigion Yr Ysgrifennydd Cyfiawnder ar gyfer Gweddnewid Ailsefydlu.

Mae'n disgrifio dull gweithredu arfaethedig y Llywodraeth o ran lleihau cyfradd aildroseddu a darparu gwell gwerth i'r trethdalwr. Rydym angen system cyfiawnder troseddol sy'n cosbi troseddwyr, yn amddiffyn y cyhoedd ac yn cefnogi dioddefwyr yn briodol; mae angen i'r system hon hefyd ddiwygio troseddwyr fel nad ydynt yn mynd ymlaen i gyflawni troseddau pellach. Drwy leihau aildroseddu gallwn sicrhau bod llai o bobl yn ddioddefwyr troseddau, bod ein cymunedau'n fwy diogel a bod llai o arian yn cael ei wario ar droseddwyr sy'n aildroseddu ac yn mynd drwy'r system dro ar ôl tro.

Mae ein cynigion ar gyfer diwygio'n canolbwyntio ar ailsefydlu oedolion sy'n droseddwyr ac yn cael eu rheoli yn y gymuned gan gynnwys y gefnogaeth a’r gwasanaethau a ddarperir i garcharorion wrth baratoi at gael eu rhyddhau. Maent yn cynnwys y rhai a ddedfrydwyd i orchmynion cymunedol, neu orchmynion dedfryd ohiriedig, a'r rhai a ryddhawyd o garchar. Dylid eu hystyried ochr yn ochr â'r gwaith pwysig sy'n ofynnol yn y carchar i ailsefydlu troseddwyr, lleihau eu risg i'r cyhoedd a'u paratoi i fyw bywydau adeiladol wedi iddynt gael eu rhyddhau.

Yn **Rhan A: Strategaeth ar gyfer Gweddnewid Ailsefydlu**, rydym yn disgrifio ein cynlluniau ar gyfer diwygio gwasanaethau rheoli troseddwyr i gyflawni gwell canlyniadau ailsefydlu a gwerth am arian.

- Yn *Y Glymblaid: ein rhaglen lywodraethu*, ymrwymodd y Llywodraeth i gyflwyno 'chwyldro ailsefydlu' a fydd yn talu i ddarparwyr annibynnol i leihau aildroseddu. Mae’r ddogfen hon yn nodi sut y byddwn yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw.
- Yn y Papur Gwyrdd *Torri'r Cylch* ym mis Rhagfyr 2010, bu i ni ddatgan ein bwriad i ymestyn egwyddorion talu yn ôl canlyniadau i holl ddarparwyr gwasanaethau i droseddwyr erbyn 2015 a gwella o ran ailsefydlu troseddwyr. Mae'r ddogfen hon yn nodi sut y bwriadwn ymestyn talu yn ôl canlyniadau ar draws gwasanaethau ailsefydlu yn y gymuned.
- Ym Mawrth 2012, yn yr ymgynghoriad *'Cosbi a Diwygio: Gwasanaethau Prawf Effeithlon*, bu i ni gynnig newidiadau i'r ffordd y caiff gwasanaethau prawf eu comisiynu a'u cyflwyno. Yn y ddogfen hon, rydym yn ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw ac yn nodi sut y mae ein cynigion wedi datblygu ymhellach.

Yn **Rhan B: Ymestyn ein Rhaglen Ddiwygio**, gofynnwn am farn ar gynigion pellach a allai gefnogi ein diwygiadau. Byddem yn croesawu ystod eang o safbwyntiau ar y cynigion yn y rhan hon o'r ddogfen. Dylai ymatebion ein cyrraedd erbyn 22 Chwefror 2013 drwy gyfrwng un o'r llwybrau ymgynghori a nodir ar ddechrau'r papur hwn, dan yr adran 'Ynghylch y cwestiynau

ymgynghori yn y ddogfen hon'. Rydym eisoes wedi ymgynghori ar yr egwyddorion sy'n sail i lawer o'r cynigion yn y ddogfen hon, ond dymunwn yn awr ymgymryd â chyfnod ymgynghori byrrach a manwl gan fod y pecyn diwygiedig o fesurau yn cynnwys rhai gwahaniaethau sylweddol o'u cymharu â'r cynigion blaenorol. Fodd bynnag, mae llawer o'r themâu a'r materion yr un fath, a'r un hefyd yw'r grŵp o bobl yr ymgynghorir â hwy.

Yn **Rhan C: Cwestiynau ar Fanyleb y System**, rydym yn nodi'r materion manwl y byddwn yn eu trafod gydag ymarferwyr presennol, dedfrydwyr a darparwyr posibl wrth i ni gwblhau dyluniad gweithredol y system hon. Byddwn yn cynnal rhaglen o ymgysylltu'n frwd â rhanddeiliaid allweddol i gasglu barn. Gellir anfon barn ar y materion hyn hefyd i'r cyfeiriad uchod.

## Rhagair y Gweinidog

Nododd Cytundeb y Glymblaid raglen uchelgeisiol o newid cymdeithasol, hyd yn oed ar adeg o gyfyngiadau ariannol. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi cychwyn ar ddiwygiadau mawr i addysg a lles er mwyn mynd i'r afael â'r her o ddibyniaeth endemig ar les a thanberfformio addysgol, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig. Bellach rydym angen gwir ddiwygio'r system cyfiawnder troseddol i fynd i'r afael â'r cylch annerbyniol o aildroseddu.

Bu llawer gormod o aildroseddu am rhy hir o'r hanner. Er gwaethaf cynnydd sylweddol mewn gwariant ar brawf dan y llywodraeth flaenorol, mae bron i hanner y rhai a ryddheir o garchar yn parhau i fynd ymlaen i aildroseddu o fewn 12 mis, ac ychydig o newid a fu yn y cyfraddau ail-euogfarn dros y degawd diwethaf. Allwn ni ddim mynd ymlaen ar yr un llwybr gan obeithio am ganlyniad gwell.

Mae angen System Cyfiawnder Troseddol Llym ond Deallus arnom sydd yn cosbi pobl yn briodol pan fyddant yn torri'r gyfraith - a hefyd yn eu cefnogi i roi trefn ar eu bywydau fel nad ydynt yn cyflawni troseddau eto yn y dyfodol.

Mae troseddwyr yn aml yn byw bywydau anhrefnus iawn: Mae chwalu cartref, cam-ddefnyddio cyffuriau ac alcohol, diweithdra dros genedlaethau, perthnasoedd camdriniol, plentyndod a dreuliwyd mewn gofal, salwch meddwl a methiant addysgol i gyd yn elfennau sy'n hynod gyffredin yng nghefndiroedd cynifer o'n troseddwyr. Ac ar hyn o bryd, rydym yn methu â gweddnewid eu bywydau. Yn wir, nid yw'r rhai sy'n cael eu rhyddhau o ddedfrydau byrion ac sydd â’r cyfraddau aildroseddu uchaf, yn derbyn unrhyw gefnogaeth o gwbl wrth gael eu rhyddhau.

Gweddnewid ailsefydlu yw fy mhrif flaenoriaeth. Byddwn yn diwygio'r ffordd y caiff troseddwyr eu rheoli yn y gymuned er mwyn cyflawni gostyngiad cyson o flwyddyn i flwyddyn mewn aildroseddu. Byddwn yn cynyddu ein ffocws ar ailsefydlu ac yn ymdrin â materion ehangach troseddwyr o ran rheoli bywyd. Ac am y tro cyntaf mewn hanes diweddar byddwn hefyd yn ymestyn ailsefydlu i garcharorion a ryddheir ar ôl dedfrydau byr. Mae fy ngweledigaeth yn un syml iawn. Pan fydd rhywun yn gadael carchar, rwyf am iddynt eisoes fod â mentor yn ei le. Rwyf am iddynt gael eu cyfarfod yng ngiât y carchar, i fod â lle i fyw wedi ei drefnu ar eu cyfer, i fod â phecyn o gefnogaeth wedi'i sefydlu, boed hynny'n hyfforddiant neu driniaeth am gyffuriau neu gwrs cyflogadwyedd. Rwyf hefyd eisiau iddynt gael rhywun i droi ato fel cyfaill doeth wrth iddynt weddnewid eu bywydau.

O ystyried y cyd-destun ariannol heriol, byddwn angen cynyddu effeithlonrwydd a gostwng costau i'n galluogi i ymestyn darpariaeth i'r rhai a ryddheir o ddedfrydau byr. Felly bwriadwn gychwyn proses o gystadleuaeth i agor y farchnad a dwyn i mewn gymysgedd fwy amrywiol o ddarparwyr, yn darparu mwy o arloesedd a gwell gwerth am arian. I sicrhau bod y system yn canolbwyntio'n briodol ar leihau aildroseddu a rhoi ymyriadau mwy effeithiol ar

waith, yn y dyfodol ni fydd darparwyr yn cael eu talu yn llawn ond pan fyddant yn lleihau cyfraddau ail-euogfarn yn eu hardal.

Ni fyddwn yn cymryd unrhyw risg wrth ddiogelu'r cyhoedd a bydd Gwasanaeth Prawf y sector cyhoeddus yn cadw cyfrifoldeb yn y pen draw dros amddiffyn y cyhoedd ac yn rheoli'n uniongyrchol y troseddwyr hynny sy'n peri'r risg uchaf o niwed difrifol i'r cyhoedd - bydd y grŵp hwn yn cynnwys achosion sy'n destun Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA). Byddant yn parhau i gynnal asesiadau o'r risg o niwed a achosir gan bob troseddwr a chynghori'r llysoedd a'r Bwrdd Parôl ac ymdrin â'r rhan fwyaf o[1] achosion tor-amod. Mae'r Gwasanaeth Prawf yn cyflawni rôl hollbwysig o ran diogelu'r cyhoedd a rheoli risg - rwy'n benderfynol o gadw hynny.

Bydd y rhan fwyaf o ddedfrydau cymunedol a gwaith ailsefydlu fodd bynnag yn cael eu cyflawni gan y sectorau preifat a gwirfoddol, sydd ag arbenigedd penodol yn y maes hwn. Rwyf hefyd yn awyddus i sicrhau bod gan weithwyr prawf proffesiynol yn y strwythurau presennol le i chwarae rhan lawn yn y ddarpariaeth ailsefydlu newydd. Bydd ein diwygiadau'n gwneud defnydd o arbenigedd lleol, ac yn integreiddio â strwythurau lleol presennol. Rydym eisiau cyflwyno system sy'n caniatáu cydweddu ac integreiddio agosach rhwng yr amrywiaeth o wasanaethau y mae troseddwyr yn eu defnyddio drwy gyd-gomisiynu gydag adrannau eraill y llywodraeth, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, ac awdurdodau lleol.

Bydd y diwygiadau hyn yn creu newid sylweddol yn y system, ac yn cyflawni ymrwymiad y Llywodraeth i ddiwygio'n wirioneddol. Bydd gweddnewid ailsefydlu'n helpu i sicrhau y bydd pob un o'r rhai a ddedfrydir i garchar neu ddedfrydau cymunedol yn cael eu cosbi'n briodol tra'n cael eu cefnogi i droi eu cefnau ar droseddu am byth - gan olygu llai o droseddau, llai o ddioddefwyr a chymunedau diogelach.

**Chris Grayling**
**Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder**

**Ionawr 2013**

# Yr angen i Weddnewid Ailsefydlu

Mae'r system rheoli troseddwyr yn bodoli i sawl diben: i gosbi troseddwyr a'u cefnogi i ddiwygio, i amddiffyn y cyhoedd rhag niwed pellach a achosir gan droseddwyr, a chefnogi dioddefwyr a thystion i droseddau.

Er bod y system yn gwneud llawer o bethau'n dda, does dim dianc oddi wrth y ffaith ei bod yn methu yn un o'i phrif ddibenion. Mae gormod o droseddwyr yn mynd drwy'r system cyfiawnder, yn bwrw'u dedfryd ac yn mynd yn ôl i'r un ffordd o weithredu yn union ag yr oeddynt yn flaenorol. Mae’r ystadegau’n dangos hyn. Ar gyfer oedolion sy'n troseddu a gafwyd yn euog neu a ryddhawyd o garchar yn y flwyddyn hyd at Ragfyr 2010, y canran a aildroseddodd o fewn 12 mis yn unig oedd:[2]

- 57.6% ar gyfer carcharorion a ddedfrydwyd i gyfnod dan 12 mis, gyda 17,560 o rai yn aildroseddu yn cyflawni 83,107 o droseddau pellach;
- 35.9% ar gyfer carcharorion a ddedfrydwyd i 12 mis neu fwy (ac eithrio rhai a garcharwyd er Diogelwch y Cyhoedd a dedfrydau oes), gyda 9,170 o aildroseddwyr yn cyflawni 28,244 o droseddau pellach; a
- 34.1% ar gyfer rhai yn dechrau gorchymyn llys[3] – cyflawnodd 49,636 o aildroseddwyr 157,796 o droseddau pellach.

Mae'r dystiolaeth[4] yn awgrymu y bydd hyd yn oed y cyn-garcharorion hynny nad ydynt yn aildroseddu o fewn y flwyddyn gyntaf yn aml yn mynd ymlaen i gyflawni troseddau pellach. O ran oedolion sy'n troseddu a ryddhawyd o garchar yn 2000, bu i 45.8% aildroseddu o fewn blwyddyn ac roedd hyn wedi cynyddu i 66.1% o fewn 3 blynedd a 72.5% o fewn 5 mlynedd.

Mae goblygiadau'r methiant hwn yn frawychus. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) wedi amcangyfrif bod cost aildroseddu gan gyn-garcharorion diweddar rywle oddeutu £9.5 biliwn a £13 biliwn.[5]

Mae'n amlwg bod angen agwedd newydd tuag at ailsefydlu. Mae angen chwyldro arnom yn y ffordd yr ydym yn gweithio i atal troseddwyr rhag aildroseddu.

---

[2] Cyhoeddiad chwarterol o ystadegau aildroseddu a brofwyd, Y Weinyddiaeth Cyflawnder

[3] Mae Gorchmynion Llys yn cynnwys dedfrydau cymunedol cyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, gorchmynion cymunedol a gorchmynion dedfrydau gohiriedig newydd.

[4] Crynodeb o ystadegau aildroseddu a Dadansoddiad 2012.

[5] Rheoli troseddwyr ar ddedfrydau byr o garchar, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Mawrth 2010.

Mae angen i ni fynd ar ein hunion at galon y mater, ac annog datblygu gwasanaethau a luniwyd i gefnogi troseddwyr i oresgyn y rhwystrau sy'n eu hatal rhag gweddnewid eu bywydau.

Mae ystod helaeth o resymau paham fod troseddwyr yn cyflawni troseddau, ac mae gan bob unigolyn stori wahanol. Fodd bynnag, mae hanes tebyg gan lawer, ac mae elfennau megis digartrefedd, dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol, salwch meddwl a diweithdra yn llawer rhy gyffredin. Dangosodd astudiaeth yn 2005/06 mai dim ond traean o garcharorion oedd yn nodi eu bod mewn swydd gyflogedig yn y pedair wythnos cyn iddynt fynd i'r ddalfa a dywedodd 13% o garcharorion na fu ganddynt swydd erioed. Dywedodd 15% y cant o'r carcharorion hyn eu bod yn ddigartref cyn mynd i garchar ac amcangyfrifwyd bod 25% yn dioddef o bryder ac iselder.[6]

Mae angen i ni wneud mwy i roi carcharorion yn ôl ar y llwybr cywir, gyda dim ond 10% mewn cyflogaeth ar unrhyw bwynt yn ystod y 13 wythnos yn dilyn eu rhyddhau a 48% yn hawlio budd-daliadau diweithdra yn ystod yr un cyfnod.[7] Mae angen system arnom lle y mae gan un darparwr gyfrifoldeb cyffredinol dros fynd i'r afael â sgiliau rheoli bywyd troseddwr, gan gydlynu pecyn o gefnogaeth i gyflawni canlyniadau gwell. Yn ogystal, nid yw rhai o'r rhai sy'n aildroseddu'n fwyaf mynych yn derbyn ond ychydig neu ddim cefnogaeth o gwbl ac mae angen i hyn newid. Mae angen i ni gyflawni hyn mewn modd sy'n fforddiadwy yng nghyd-destun ymrwymiad y Weinyddiaeth Cyfiawnder i gyflawni arbedion blynyddol o dros £2bn erbyn 2014/15, gan edrych ymlaen at yr Adolygiad Gwariant nesaf.

Mae ein cynigion yn anelu at gyflawni nifer o ganlyniadau a fydd, yn ein barn ni, yn ein cynorthwyo i fynd i'r afael â chyfraddau aildroseddu uchel a chynyddu effeithlonrwydd a gwerth am arian.

1. **Mwy o hyblygrwydd o ran cyflwyno**: Mater i'r llysoedd yw penderfynu ar ddedfryd i droseddwyr unigol. Fodd bynnag, ar ôl dedfrydu, mae cyflwyno gwasanaethau i droseddwyr yn hanesyddol wedi canolbwyntio'n ormodol ar broses yn hytrach na'r effaith ar ailsefydlu troseddwyr. Rydym eisiau ysgogi darparwyr i arloesi a gwneud y defnydd gorau o ddulliau a gwasanaethau sydd wedi dangos y gallant weithio i leihau aildroseddu. Byddwn yn cael gwared â biwrocratiaeth ddiangen ac yn cynyddu'r sgôp ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn ein strwythur newydd arfaethedig i ddefnyddio'u doethineb i ganolbwyntio ar gyflwyno'r gefnogaeth a'r

---

[6] Canlyniadau'r Arolwg Lleihau Troseddau Carcharorion (SPCR), y Weinyddiaeth Cyfiawnder, 2012 - mae'r ffigurau'n berthnasol i oedolion yn bwrw dedfryd rhwng un mis a phedair blynedd.

[7] Troseddu, cyflogaeth a budd-daliadau - canfyddiadau o'r prosiect cysylltu data, y Weinyddiaeth Cyfiawnder, 2011. Mae data cyflogaeth yn dod o ddata P45 Cyllid a Thollau EM. Yn aml mae gan gyfnodau cyflogaeth P45 amcan o ddyddiadau dechrau a gorffen. Yn ogystal, nid yw cyfnodau cyflogaeth P45 fel arfer yn cofnodi cyflogaeth a delir ar lefelau is na throthwyon trethu, hunan-gyflogaeth neu waith lle telir ag arian mewn llaw yn yr economi anffurfiol. Felly rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli canfyddiadau'n ymwneud â chanlyniadau cyflogaeth. Mae'r ffigurau'n berthnasol i garcharorion a ryddhawyd yn 2008.

gwasanaethau sydd eu hangen i droi unigolyn i ffwrdd oddi wrth fywyd troseddol. Bydd darparwyr yn cael eu rhyddhau i wneud beth sy'n gweithio i ailsefydlu troseddwyr, ac yn cael eu sbarduno i gyflwyno canlyniadau gwirioneddol gyda rhan o'u tâl contract yn ddibynnol ar leihau aildroseddu.

2. **Ymestyn cwmpas ailsefydlu**: Mae angen i ni gyrraedd cynifer o droseddwyr â phosibl gyda'n gwasanaethau ailsefydlu, ac yn enwedig y rhai sy'n fwyaf tebygol o aildroseddu. Mae bron i 58% o garcharorion a ddedfrydir i lai na blwyddyn yn y ddalfa yn aildroseddu o fewn blwyddyn i gael eu rhyddhau, eto i gyd, ychydig iawn o gyfleoedd a ddarperir gan y system ar hyn o bryd iddynt fynd i'r afael â'u haildroseddu. Rydym eisiau ymestyn gwasanaethau ailsefydlu i gynnwys y troseddwyr hynny sy'n mynd i mewn am ddedfrydau byr ond yn aildroseddu dro ar ôl tro yn ein dull gweithredu, a darparu sail statudol i'w gwneud yn ofynnol iddynt ymgysylltu.

3. **Gwasanaethau mwy effeithlon**: Mae angen i ni ryddhau cyllid i ddarparu gwasanaeth ailsefydlu ar gyfer y rhai sydd ei angen fwyaf, ac ar adeg pan mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ) wedi ymrwymo i chwarae ei rhan i gefnogi lleihau'r diffyg. Rydym yn cynnig cyflwyno rhaglen eang o gystadleuaeth, a gwahodd darparwyr o'r sectorau preifat a gwirfoddol i wneud cais i gyflwyno'r rhan fwyaf o'r gwaith ailsefydlu presennol. Byddwn yn dyfarnu contractau i'r darparwyr hynny sy'n dangos y gallant ddarparu gwasanaethau effeithlon o ansawdd uchel, a gwella gwerth am arian. Dangoswyd y potensial hwn gan y gystadleuaeth ddiweddar i redeg gwasanaethau Talu'n Ôl i'r Gymuned yn Llundain, gyda'r contract terfynol i fod i gyflawni amcangyfrif o £25m o arbedion dros bedair blynedd y contract, sy'n cynrychioli gostyngiad o 37% yng nghost y gwasanaeth.[8] Byddwn hefyd yn edrych ar sut y gallwn leihau costau unedau ymhellach ar draws y system.

4. **Mwy o amrywiaeth o ran darparwyr**: Mae staff prawf yn gwneud cyfraniad sylfaenol i amddiffyn y cyhoedd rhag y troseddwyr mwyaf peryglus yn y gymuned, ac rydym eisiau cadw'r cyfoeth o brofiad a geir ar hyn o bryd yn y Gwasanaeth Prawf. Byddwn yn sefydlu system a fydd yn manteisio ar arloesedd a hyblygrwydd darparwyr y sectorau preifat a gwirfoddol, arbenigedd lleol a sgiliau a phrofiad gweithwyr prawf proffesiynol i gefnogi ailsefydlu troseddwyr fel y rhagwelwyd gan Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007.

5. **Cydweithio â phartneriaid**: Mae angen i ni adeiladu ar y gwaith da a wneir eisoes gan asiantaethau sy'n cydweithio i reoli troseddwyr yn y ffordd fwyaf effeithiol (e.e. dan Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) neu Reolaeth Troseddwyr Integredig (IOM) ac annog gweithio'n gadarn mewn partneriaeth ar lefel leol. Bydd ein system yn galluogi i ystod o wasanaethau i droseddwyr gael eu comisiynu ar y cyd.

---

8 http://www.parliament.uk/documents/commons-vote-office/July_2012/13-07-12/17-Justice-CommunityPayback.pdf

Mae'r cynigion sy'n dilyn yn y ddogfen hon yn disgrifio sut y bwriadwn gyflawni chwyldro yn y ffordd y caiff gwasanaethau ailsefydlu eu darparu.

# Rhan A: Strategaeth ar gyfer Gweddnewid Ailsefydlu

Ym Mawrth 2012, yn yr ymgynghoriad *'Cosbi a Diwygio: Gwasanaethau Prawf Effeithlon*, bu i ni gynnig newidiadau i'r ffordd y caiff gwasanaethau prawf eu comisiynu a'u cyflwyno. Crynodeb o'r ymatebion a gynhyrchwyd gan yr ymgynghoriad hwnnw wrth ddatblygu'r strategaeth gyfredol. Byddwn yn cyhoeddi ar wahân grynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd.

Mae'r achos dros newid a'r egwyddorion a'r rhesymeg dros ymestyn cystadleuaeth o ran gwasanaethau prawf a rheolaeth effeithiol ar droseddwyr yn parhau mor berswadiol ag erioed. Rydym yn parhau i ystyried y gwasanaeth prawf yn y sector cyhoeddus yn hanfodol i sicrhau y parheir i amddiffyn y cyhoedd gan gadw'r penderfyniadau allweddol o ran diddordeb cyhoeddus ar gyfer pob troseddwr.

Wrth gomisiynu gwasanaethau o'r fath, fel y cydnabuwyd gennym yn yr ymgynghoriad blaenorol, mae'n bwysig canfod y cydbwysedd cywir rhwng datganoli cyfrifoldeb a'r angen i wneud arbedion drwy arbedion maint. Rydym wedi adolygu'r model yn y ddogfen honno ar gyfer comisiynu lleol ac wedi dod i'r casgliad mai model mwy effeithiol yw caffael gwasanaethau o'r fath yn genedlaethol mewn nifer o lotiau daearyddol i gyflawni'r pris gorau a dull comisiynu cyson ar draws y wlad. Mae'n bwysig, fodd bynnag, i benderfyniadau comisiynu gael eu goleuo gan wybodaeth leol.

Er bod ymatebion i ymgynghoriadau blaenorol wedi cynorthwyo i oleuo'r strategaeth gyfredol a bod llawer o'r themâu allweddol yr un fath, ceir rhai gwahaniaethau allweddol o ran cyflwyno yn ein model arfaethedig o'i gymharu â'r hyn a oedd yn yr ymgynghoriad gwreiddiol ac rydym yn ystyried y pecyn o'r newydd. Os ydych yn dymuno ein cyfeirio at eich ymateb blaenorol gofynnwn i chi egluro hynny, gan na fyddwn yn cymryd mai dyna'r sefyllfa fel arall.

Mae'r adran hon o'r ddogfen yn disgrifio'n cynlluniau ar gyfer diwygio gwasanaethau rheoli troseddwyr yng ngoleuni'r model comisiynu newydd i gyflawni gwell canlyniadau ailsefydlu a gwerth am arian.

## Crynodeb o'r Cynigion

Mae nodweddion craidd ein cynlluniau ar gyfer diwygio fel a ganlyn. Disgrifir pob un yn fwy manwl yn yr adrannau dilynol.

- **Adran 1 – Gwasanaethau'n cystadlu yn y gymuned**: Bydd y rhan fwyaf o wasanaethau i droseddwyr yn y gymuned yn destun cystadleuaeth. Drwy gystadleuaeth, byddwn yn agor darparu gwasanaeth i ystod llawer mwy amrywiol o ddarparwyr ac yn cyflawni arbedion, tra'n cadw rôl bwysig i'r Gwasanaeth Prawf yn canolbwyntio ar amddiffyn y cyhoedd a chyflwyno swyddogaethau craidd eraill a gedwir ar gyfer y sector cyhoeddus, megis darparu cyngor i lysoedd.

- **Adran 2 – Darparwyr sy'n mynd i'r afael ag achosion aildroseddu**: Bydd darparwyr yn cael eu comisiynu i gyflwyno dedfrydau cymunedol a gofynion trwyddedau, a byddant yn cael eu hysgogi i leihau aildroseddu. Byddant yn cael eu talu yn ôl canlyniadau wrth gyflawni gostyngiadau yng nghyfraddau aildroseddu. Rydym am i ddarparwyr fynd i'r afael ag achosion aildroseddu - er enghraifft, drwy ddarparu mentoriaid a chyfeirio at wasanaethau sy'n anelu at gyflogaeth, llety, hyfforddiant a mynd i'r afael â dibyniaeth, i helpu troseddwyr i weddnewid eu bywydau. Byddwn yn annog darparwyr i harneisio arbenigedd lleol drwy weithio gyda mudiadau lleol ac arbenigol yn y sector gwirfoddol a chymunedol (VCS).
- **Adran 3 – Ymestyn darpariaeth ailsefydlu i fwy o droseddwyr**: Drwy ddarparu gwasanaethau'n fwy effeithiol bwriadwn ymestyn darpariaeth ailsefydlu i droseddwyr a ryddheir o ddedfrydau byr o garchar am lai na 12 mis. Ar hyn o bryd does gan y troseddwyr hyn ddim trwydded statudol na darpariaeth ailsefydlu ond yn eu plith hwy y mae'r cyfraddau uchaf o ran ail-euogfarn. Bwriadwn sicrhau eu bod yn derbyn ymyriadau ailsefydlu wedi'u targedu, ac ymestyn goruchwyliaeth statudol i sicrhau eu bod yn ymgysylltu â'r rhaglenni hyn.
- **Adran 4 – Rôl y sector cyhoeddus a gwarchod y cyhoedd**: Bydd y gwasanaeth prawf sector cyhoeddus yn cadw cyfrifoldeb dros warchod y cyhoedd. Byddant yn parhau i gynnal asesiadau o'r risg o niwed difrifol a achosir gan bob troseddwr a chynghori'r llysoedd a'r Bwrdd Parôl. Gan weithio mewn partneriaeth â'r heddlu ac eraill, bydd y sector cyhoeddus yn rheoli'n uniongyrchol y troseddwyr hynny sy'n achosi'r risg uchaf o niwed difrifol i'r cyhoedd - bydd y grŵp hwn yn cynnwys achosion Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA), lle bydd y sector cyhoeddus yn parhau i weithio gyda heddluoedd i asesu a rheoli risg.
- **Adran 5 – Gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol rhwng darparwyr a'r sector cyhoeddus**: Bydd darparwyr gwasanaethau y ceir cystadleuaeth amdanynt yn gweithio'n agos gyda'r sector cyhoeddus. Yn benodol, byddwn yn sefydlu trefniadau sy'n golygu, mewn achosion lle y bydd y risg o niwed difrifol yn cynyddu, bod darparwyr yn hysbysu'r gwasanaeth prawf sector cyhoeddus ac yn cymryd camau pellach priodol i ddiogelu'r cyhoedd.
- **Adran 6 – Dyluniad strwythurol effeithlon**: Byddwn yn dylunio strwythur y system newydd hon i fod mor effeithlon â phosibl. Byddwn yn comisiynu cyflwyno gwasanaethau y ceir cystadleuaeth amdanynt dros ardaloedd daearyddol drwy swyddogaeth gomisiynu genedlaethol i osgoi cymhlethdod a dyblygu diangen. Bydd ardaloedd y pecynnau contract newydd yn cyd-redeg â ffiniau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (PCC) ac awdurdodau lleol ac yn cefnogi rhyngweithio â gwasanaethau lleol eraill, gan grwpio ardaloedd heddlu unigol gyda'i gilydd lle bo angen. Bydd gwasanaeth prawf y sector cyhoeddus hefyd yn cael ei drefnu yn y ffordd fwyaf effeithlon ar gyfer cyflawni ei gyfrifoldebau newydd.
- **Adran 7 – Integreiddio â phartneriaethau lleol**: Byddwn yn llunio'r system hon i wneud defnydd o arbenigedd lleol, ac i integreiddio â strwythurau lleol presennol. Mae angen i ni sicrhau bod gwasanaethau ailsefydlu'n cydredeg â'r rôl a chwaraeir gan Gomisiynwyr yr Heddlu a

Throseddu fel bod ein model marchnad newydd yn hwyluso cyd-gomisiynu gyda hwy a chomisiynwyr gwasanaethau lleol eraill. Bydd yn rhaid i ddarparwyr posibl ddangos tystiolaeth o'r modd y byddent yn cynnal partneriaethau lleol fel rhan o'r broses fidio. Hefyd bydd sgôp sylweddol i'r sector gwirfoddol a chymunedol (VCS) gyflwyno gwasanaethau ailsefydlu rheng-flaen, a ffurfio partneriaethau gwirioneddol er mwyn dod yn rhan o'r broses gystadlu.

- **Adran 8 – Fforddio'r system ddiwygiedig**: Byddwn yn llunio system sy'n fforddiadwy dan gyfyngiadau gwariant, yn gyson â blaenoriaeth y Llywodraeth i fynd i'r afael â'r diffyg. Anelwn at gyflawni arbedion drwy wasanaethau cystadleuol a gyrru costau unedau darparu gwasanaeth i lawr a defnyddio'r rhain i ariannu costau trosiannol ac ymestyn darpariaeth ailsefydlu. Yn y tymor hwy, mae gan ostyngiadau mewn aildroseddu'r potensial i gyflwyno buddion ar draws y system cyfiawnder troseddol a chymdeithas yn ehangach.

# Adran 1: Gwasanaethau'n cystadlu yn y gymuned

**Byddwn yn cynnal cystadleuaeth ar gyfer y gwasanaethau a gyflwynir dan y rhan fwyaf o'n gwariant cyfredol yn y gymuned, gyda darparwyr wedi'u contractio'n gyfrifol am ailsefydlu troseddwyr a chyflwyno gofynion gorchmynion cymunedol a thrwyddedau.**

Bydd y rhan fwyaf o wasanaethau ailsefydlu a chosbi yn y gymuned yn cael eu hagor i farchnad amrywiol o ddarparwyr. Ar hyn o bryd rydym yn gwario oddeutu £1 biliwn ar gyflwyno'r gwasanaethau hyn. Drwy gystadleuaeth a thalu yn ôl canlyniadau, byddwn yn cyflwyno gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon, gan dargedu'n benodol ostyngiad sylweddol mewn cyfraddau aildroseddu. Bydd hyn yn cyflwyno system cyfiawnder lem ond deallus, gan osod cosbau priodol ochr yn ochr â rhaglen integredig o gefnogaeth i gynorthwyo troseddwyr i ddiwygio.

Yn y dyfodol bydd y mwyafrif llethol o droseddwyr yn y gymuned, gan gynnwys rhai ar orchmynion cymunedol[9] a rhai wedi'u rhyddhau o'r carchar, yn cael eu rheoli o ddydd i ddydd gan ddarparwyr ar gontract. Yr eithriad fydd y troseddwyr hynny sy'n destun trefniadau MAPPA ac eraill y bernir eu bod yn cyflwyno risg uchel o niwed difrifol i'r cyhoedd. Rydym yn amcangyfrif bod potensial i ddarparwyr ar sail cystadleuaeth reoli llwyth achosion blynyddol o oddeutu 265,000 o droseddwyr, ond y bydd y sector cyhoeddus yn rhoi goruchwyliaeth ddwys i droseddwyr eraill sy'n achosi risg uchel o niwed.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn gyfrifol am gyflwyno gofynion gorchmynion cymunedol neu amodau trwyddedau. Byddant hefyd yn cael eu sbarduno, drwy dalu yn ôl canlyniadau, i fynd i'r afael â phroblemau rheoli bywyd troseddwyr a lleihau aildroseddu. Ar gyfer troseddwyr yn gadael carchar, dylai darparwyr weithio gyda hwy 'drwy giât y carchar', gan ymgysylltu â hwy cyn iddynt gael eu rhyddhau i'r gymuned a dal ati i roi cefnogaeth barhaus. Dylid cysylltu hyn â'r rôl bwysig a chwaraeir gan garchardai o ran ailsefydlu troseddwyr a lleihau eu risg o niwed, gan gynnwys ymdrechion i gynyddu nifer y carcharorion sy'n gweithio tra yn y ddalfa.

Rydym eisoes wedi gwneud rhai gwasanaethau prawf yn destun cystadleuaeth, un ai ar lefel genedlaethol (e.e. contractau Monitro Electronig) neu o fewn Ymddiriedolaeth Prawf (e.e. Talu'n ôl i'r Gymuned yn Llundain). Bydd y gwasanaethau hyn ar gael i ddarparwyr newydd yn unol â thelerau a chwmpas daearyddol contractau presennol. Byddwn hefyd yn penderfynu sut orau i integreiddio'r gwasanaethau hyn yn y tymor hwy â'r model marchnad newydd.

---

[9] Ar gyfer y ddogfen hon, diffinnir 'troseddwyr ar orchmynion cymunedol' fel oedolion (18+) sy'n troseddu ac a ddedfrydir i un ai Orchymyn Cymunedol neu Orchymyn Dedfryd Ohiriedig.

Byddwn yn gweithio i adeiladu marchnad gref ar gyfer y gystadleuaeth hon a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r farchnad i brofi egwyddorion a syniadau allweddol. Mae ein cynllun ymgysylltu'n cynnwys ymgynghori ag ystod eang o ddarparwyr o wahanol sectorau.

Mae dyluniad gwasanaeth sydd â sylfaen o ddata perfformio da a gwrthffeithiau cadarn yn ganolog o ran sicrhau contractau sy'n rhoi gwerth da am arian i'r trethdalwr sy'n cyflwyno gwir welliannau mewn gwasanaethau. Mae angen i ni fod yn sicr ynghylch sut beth yw perfformiad da a gwobrwyo hynny, ac mae angen i ni gael mesurau cadarn yn eu lle i reoli perfformiad gwael. Byddwn yn ymgynghori â darparwyr, ymarferwyr a rhanddeiliaid ehangach i adeiladu ein dealltwriaeth o sut orau i gyflawni hyn ar draws y gwasanaethau yma. Byddwn hefyd yn edrych ar y gwersi gorau o reoli contractau a rheoli perfformiad ar draws y Llywodraeth. Caiff y rhain eu bwydo i mewn i ddyluniad strwythurau cytundebol a strwythur y gystadleuaeth.

Bydd pwyslais cryf ar greu marchnad amrywiol a chynaliadwy ar gyfer darpariaeth i'r dyfodol sy'n parhau i ddwyn i mewn a denu darparwyr, yn meithrin arloesedd a gwobrwyo darparwyr sy'n cyflawni canlyniadau tra'n gwrth-annog perfformiad gwael. Byddwn yn defnyddio'r cyfnod ymgynghori i archwilio opsiynau eraill a all ein cynorthwyo i gyflawni hyn.

Bydd yn hanfodol i ddarparwyr weithio'n agos gyda'r holl bartneriaid lleol i sicrhau bod y gwasanaeth a gyflwynir i gyflawni canlyniadau o ran lleihau aildroseddu yn cyd-fynd â gwasanaethau lleol eraill, pwy bynnag sy'n comisiynu - er enghraifft Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Awdurdodau Lleol neu gomisiynwyr y GIG. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ddangos tystiolaeth o'r modd y byddent yn gwreiddio gwasanaethau gyda phartneriaethau lleol fel rhan o'r broses fidio, a phartneriaethau Rheoli Troseddwyr yn Integredig (IOM) yn benodol

Ar gyfer pob troseddwr, bydd gwasanaeth prawf y sector cyhoeddus yn cadw'i rôl allweddol o ddarparu cyngor i lysoedd ar opsiynau dedfrydu, a bydd yn cadw cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y risg o niwed i'r cyhoedd yn cael ei reoli'n effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys cadw cyfrifoldeb uniongyrchol dros reoli troseddwyr ar gyfer y rhai yr ystyrir eu bod yn achosi'r risg uchaf o niwed. Trafodir rôl y gwasanaethau prawf sector cyhoeddus i'r dyfodol yn fwy manwl yn Adran 4.

**Ffigur 1 Dyraniad arfaethedig o swyddogaethau ar gyfer gwahanol grwpiau troseddwyr**

| | Marchnad | Sector Cyhoeddus |
|---|---|---|
| **Troseddwyr Risg Isel / Canoligs** | • **Talu drwy ganlyniadau i ailsefydlu troseddwyr** Dulliau'n debygol o gynnwys mentora 'drwy'r giât', a chefnogi mynediad at lety / cyflogaeth / hyfforddiant / triniaeth am gamddefnyddio sylweddau, yn ogystal â chyflwyno gofynion dedfrydau / trwyddedau<br>• Hysbysu'r gwasanaeth prawf sector cyhoeddus o ymyriadau addas sydd ar gael i oleuo cyngor i'r llys ar opsiynau dedfrydu / amodau trwyddedau<br>• Sicrhau bod y risg gynyddol o niwed difrifol yn cael ei chanfod a'i rheoli mewn cydweithrediad â'r gwasanaeth prawf sector cyhoeddus<br>• Notify the public sector probation service or court of breaches of community orders, suspended sentence requirements and licence conditions | • **Atebol dros warchod y cyhoedd**<br>• Asesiad risg cychwynnol o droseddwyr<br>• Cyngor i lysoedd a'r Bwrdd Parôl ar ddedfrydu / amodau trwyddedau<br>• Cyngor ar ddychwelyd i'r llys a phan elwir yn ôl i'r ddalfa mewn achosion o dorri gorchymyn neu amodau trwyddedau<br>• Ymgysylltu â darparwyr, cynghori ar reoli risg ac ymateb i risg gynyddol o niwed difrifol |
| **Troseddwyr Risg Uchel** | • Cyflwyno gofynion gorchmynion cymunedol ac ymyriadau ailsefydlu pan dderbynnir comisiwn i wneud hynny | • **Atebol dros warchod y cyhoedd**<br>• Asesiad risg cychwynnol a chyngor i'r llysoedd a'r Bwrdd parôl fel yr uchod<br>• Rheoli troseddwyr yn uniongyrchol, gweithio gyda MAPPA a phartneriaid eraill |

# Adran 2: Darparwyr sy'n mynd i'r afael ag achosion aildroseddu

**Byddwn yn talu i ddarparwyr gyflwyno gofynion dedfrydau cymunedol a thrwyddedau, ac hefyd yn eu hysgogi i leihau aildroseddu drwy dalu yn ôl canlyniadau.**

Yn ogystal â chyflwyno dedfryd y llys, bydd darparwyr yn rhydd i ddefnyddio ymyriadau eraill yn anelu at leihau aildroseddu, gan fanteisio ar ymarfer gorau sy'n bodoli eisoes a chreu partneriaethau gyda mudiadau lleol arbenigol. Rydym eisiau gweld model marchnad sy'n cefnogi ystod eang o ddarparwyr arweiniol, a phartneriaethau sy'n dwyn i mewn sgiliau penodol mudiadau lleol ac arbenigol.

Un mater yr oedd y rhai a ymatebodd i ymgynghoriad *'Cosbi a Diwygio: Gwasanaethau Prawf Effeithlon* bron yn gwbl gytûn arno oedd bod yn rhaid diogelu ymyriadau effeithlon a gyflwynir gan fentrau bychain a chanolig eu maint (SME) a'r sector gwirfoddol a chymunedol (VCS), yn y system. Rydym yn cydnabod arbenigedd sylweddol a natur ddeinamig llawer o ddarparwyr VCS, a bod ganddynt rôl hanfodol i'w chwarae o ran gwreiddio gwaith gyda throseddwyr mewn mentrau a chymunedau lleol.

Rydym yn awyddus i weld partneriaethau rhwng mudiadau'r sector gwirfoddol a chymunedol, neu ddarparwyr preifat a gwirfoddol a chymunedol yn dod ymlaen i gystadlu am gontractau. Mae gan y farchnad buddsoddi cymdeithasol sy'n datblygu botensial i sicrhau bod gan ymgeiswyr VCS yr adnoddau ariannol i lunio bidiau credadwy a ffurfio partneriaethau gwirioneddol gyda'r sector preifat. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r farchnad buddsoddi cymdeithasol i sicrhau bod y broses gontractio'n gydnaws â'r math hwn o ariannu. Ni fydd mudiadau VCS llai yn cael eu heithrio ychwaith - byddwn yn sefydlu trefniadau i sicrhau y gallant ffurfio rhan o drefniadau is-gontractio a fydd yn cael eu rheoli'n deg a chynaliadwy.

Tra y bydd angen i ni gontractio gydag endidau sydd â'r gallu i gynnal y risgiau ariannol a gweithredol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau troseddwyr yn y gymuned a chyflwyno talu yn ôl canlyniadau; bydd hefyd yn agored i'r rhai sydd ar hyn o bryd yn y sector cyhoeddus i ddylunio darpar wasanaethau ar y cyd neu ddatblygu partneriaethau priodol gyda mudiadau eraill i ymgeisio i ennill contractau i gyflwyno gwasanaeth. Rhagwelir mai dim ond ac os bydd y bidiau hyn wedi bod yn llwyddiannus y bydd unrhyw endidau dan arweiniad cyflogeion neu bartneriaethau yn cael eu sefydlu'n ffurfiol. Mae hyn er mwyn gwarantu parhad gwasanaeth ym maes prawf yn ystod y trosglwyddiad i'r trefniadau newydd, a hefyd i sicrhau na fydd y gweithwyr proffesiynol hynny yn y gwasanaeth prawf sector cyhoeddus a ddaw ynghyd i ddod yn rhan o'r broses fidio dan anfantais os byddant yn aflwyddiannus yn y pen draw.

Bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder a Swyddfa'r Cabinet yn cydweithio i gefnogi arweinyddion a staff mewn Ymddiriedolaethau Prawf i archwilio'r opsiynau a'r

dichonolrwydd o gymryd rhan wrth ddylunio partneriaethau priodol ac endidau annibynnol cyn cystadlaethau. Bydd Swyddfa'r Cabinet yn dylunio pecyn o gefnogaeth ar gyfer y rhai sy'n dymuno archwilio'r opsiwn hwn gan gynnwys mynediad at Raglen £10m Cefnogi Cydymddibynwyr Swyddfa'r Cabinet.

Efallai y bydd modd i sefydliadau'r sector cyhoeddus - yr heddlu er enghraifft - gymryd rhan yn uniongyrchol yn narparu gwasanaethau ychwanegol a chael eu gwobrwyo amdanynt, ar yr amod y gallwn liniaru unrhyw wrthdaro posibl o ran buddiannau a sicrhau priodoldeb yn y defnydd o arian cyhoeddus.

Byddwn angen i ddarparwyr arweiniol ymrwymo i egwyddorion rheoli'r gadwyn gyflenwi ochr yn ochr â'r rhai a nodwyd gan Safon Merlin. Byddwn yn sicrhau dan drefniadau talu yn ôl canlyniadau, na fydd lefelau gormodol o risg ariannol yn cael eu trosglwyddo i lawr i ddarparwyr y sector gwirfoddol a chymunedol a busnesau bychain a chanolig, ac yn sicrhau ffrydiau cyllido cynaliadwy a chefnogi mynediad at fuddsoddi cymdeithasol. I gefnogi'r sector gwirfoddol a chymunedol i weithredu dan fframwaith talu yn ôl canlyniadau yn y dyfodol, mae NOMS yn buddsoddi £150k o gyllid grant yn 2012/13 i ddatblygu cynllun gweithredu datblygu capasiti ar gyfer y sector. Yna bydd grant pellach o £350k ar gael yn 2013/14 i weithredu'r cynllun.

Mae ystod o ffactorau'n arwain unigolion i gyflawni troseddau. Yn ogystal â chyflwyno'r ddedfryd, rydym eisiau gweld darparwyr yn mynd i'r afael â materion rheoli bywyd ehangach troseddwyr - er enghraifft drwy eu helpu i ddod o hyd i lety, cael gafael ar gyflogaeth a hyfforddiant a gwasanaethau cyhoeddus eraill, yn ogystal â rhoi sylw i'w hagwedd, eu meddwl a'u hymddygiad, a'u rhoi mewn cysylltiad â rhaglenni triniaeth iechyd meddwl, cyffuriau ac alcohol.

Rydym eisiau i’r diwygiadau hyn fod yn effeithlon i bob troseddwr. Byddwn yn sicrhau y cydnabyddir ac y rhoddir sylw i'r anghenion a'r blaenoriaethau sy'n berthnasol i droseddwyr sy'n fenywod yn ein dull cyffredinol o dalu yn ôl canlyniadau. Mae'n ofynnol i Ymddiriedolaethau Prawf dan ddogfen Bwriadau Comisiynu NOMS ddangos sut y byddant yn sicrhau y darperir gwasanaethau i fenywod yn briodol. Maent eisoes yn gweithio gyda darparwyr eraill, megis Gwasanaethau Cymunedol Menywod a arweinir gan VCS i fynd i'r afael ag anghenion ailsefydlu troseddwyr sy'n fenywod ac yn bwrw gorchmynion cymunedol. Ar gyfer yr holl droseddwyr sy'n fenywod ac eithrio troseddwyr sy'n peri risg uchel o niwed difrifol, bydd y cyfrifoldeb dros wasanaethau ailsefydlu'n cael ei drosglwyddo i ddarparwyr y farchnad newydd ac yn cael ei gynnwys yn y dull gweithredu cyffredinol o dalu yn ôl canlyniadau.

Byddwn yn parhau i ystyried effaith posibl ein diwygiadau arfaethedig ar droseddwyr eraill sydd ag anghenion cymhleth a nodweddion gwarchodedig.

Rydym eisiau gweld troseddwyr yn rhoi heibio'n llwyr gyflawni troseddau, i leihau nifer y troseddwyr sy'n dychwelyd i'r system. Bydd hyn yn torri costau carchardai a phrawf, yn lleihau gwaith sy'n cronni yn y llysoedd ac yn caniatáu arbedion o ran darpariaeth cymorth cyfreithiol. Byddwn yn gweithredu talu yn ôl canlyniadau, gan dalu darparwyr yn llawn ddim ond os byddant yn cyflawni gostyngiad digonol mewn aildroseddu. Gellir gwneud taliadau canlyniadau

ychwanegol os eir y tu hwnt i'r gostyngiad a gytunwyd - rydym eisiau i ddarparwyr ganolbwyntio'n ddiflino ar ailsefydlu troseddwyr. Byddwn yn gwario arian trethdalwyr ar yr hyn sy'n gweithio i leihau aildroseddu ac ar y gwasanaethau mwyaf effeithlon, ond ni fyddwn yn gwobrwyo gwasanaethau sy'n fethiant.

Tynnodd ymatebion i'r ymgynghoriad *'Cosbi a Diwygio: Gwasanaethau Prawf Effeithlon* sylw at y perygl y gallai talu yn ôl canlyniadau yn seiliedig ar fesur deuol syml o ymatal rhag troseddu annog darparwyr i ganolbwyntio'u sylw ar droseddwyr sy'n lleiaf tebygol o aildroseddu.

Y mesur deuol sy'n cyd-fynd yn fwyaf agos â'n nod cyffredinol o ymatal yn llwyr rhag troseddu. Fodd bynnag, rydym yn ystyried ffyrdd o addasu'r mesur hwn i sicrhau bod darparwyr yn cael eu hysgogi i barhau i ymgysylltu â throseddwyr ar ôl iddynt gael ail-euogfarn a chael eu dedfrydu ac yna ddychwelyd i lwyth gwaith y darparwyr wedi hynny.

Rydym yn bwriadu datblygu ein strwythurau talu i ysgogi darparwyr i ddarparu gwasanaethau effeithlon ar gyfer pob troseddwr, hyd yn oed y rhai mwyaf problematig sy'n troseddu'n aml.

## Adran 3: Ymestyn darpariaeth ailsefydlu i fwy o droseddwyr

**Byddwn yn defnyddio cystadleuaeth ac arbedion eraill i ymestyn darpariaeth ailsefydlu i droseddwyr a ryddheir yn dilyn dedfrydau byr o garchar, sydd ar hyn o bryd yn derbyn dim darpariaeth o ran trwydded statudol nac ailsefydlu ond sydd â chyfraddau uchel o ail-euogfarn.**

Ar hyn o bryd, ychydig o wasanaethau ailsefydlu a ddarperir drwy'r system cyfiawnder troseddol i droseddwyr a ryddhawyd yn dilyn cyfnodau o lai na 12 mis yng ngharchar, ac eto maent hwy ymysg y grwpiau o droseddwyr mwyaf mynych. Ar gyfer troseddwyr a ryddhawyd o ddedfrydau byr yn 2010, yn gyffredinol bu i 57.6% aildroseddu o fewn blwyddyn, gyda'r ail-droseddwyr hyn yn cyflawni cyfartaledd o 4.73 o droseddau pellach dros y cyfnod hwnnw. Treuliodd troseddwyr a ddedfrydwyd i lai na 12 mis gyfartaledd o 2.2 mis yng ngharchar[10] felly does ond ychydig gyfle i ddiwygio'r troseddwyr o'r grŵp hwn yn y carchar. Mae ymrwymiad ac arbenigedd cronedig trefniadau Rheoli Troseddwyr yn Integredig (IOM) wedi llwyddo i reoli effaith y troseddwyr gwaethaf mewn ardaloedd lleol. Bydd ein cynigion yn rhoi hwb i'r ymdrechion hyn drwy gynnwys carcharorion a ddedfrydwyd i gyfnodau byr a ryddheir o'r ddalfa o fewn llwyth gwaith darparwr, gan ddarparu sail statudol ar gyfer ymyrraeth.

Byddwn yn rhoi'r pwerau angenrheidiol i'r llysoedd roi dedfrydau byr o garchar a fydd yn awr yn cynnwys goruchwyliaeth pan fydd carcharorion yn cael eu rhyddhau. Byddwn yn sicrhau y bydd y cyfnod goruchwylio ar gyfer pob troseddwr yn ddigon hir i gefnogi gwaith ailsefydlu ystyrlon gyda throseddwyr, yn dilyn yr elfen hanfodol o gosb a ddarperir gan y rhan o'r ddedfryd a fwrir yng ngharchar.

Er mwyn cefnogi cydymffurfiaeth, rhaid sicrhau bod canlyniadau i droseddwyr na fyddant yn ymgysylltu ag ymdrechion i'w hailsefydlu. Yn yr achosion hyn, rydym eisiau sicrhau cydbwysedd rhwng galluogi ailsefydlu i barhau a sicrhau y rhoddir sylw i wrthod cydymffurfio. Byddwn yn cyflwyno graddfa o fesurau a fydd ar gael, i ddarparu ystod o opsiynau ar gyfer herio troseddwyr sy'n methu ag ymgysylltu â darparwyr. Bydd hyn yn cynnwys ystyried yr opsiwn o garchar fel y dewis olaf.

Bydd pwysau o ran costau o ganlyniad i ymestyn ymyriadau ailsefydlu i droseddwyr a ryddhawyd o dedfrydau byr dan glo, ac wrth drosglwyddo i'r system newydd. Credwn y gellir cydbwyso'r costau hyn drwy roi gwasanaethau ar gystadleuaeth i ryddhau arbedion effeithlonrwydd a gostwng costau unedau ar draws y system. Yn y tymor hwy, mae gan ostyngiadau mewn cyfraddau aildroseddu'r potensial i gyflwyno gostyngiad yn y galw ar y system cyfiawnder troseddol yn ei chyfanrwydd.

---

[10] Am y cyfnod Ebrill i Fehefin 2012 ac yn cynnwys amser a dreuliwyd ar remand.

**Astudiaeth Achos: Cynllun Peilot Bond Effaith Gymdeithasol**

Ar gyfer cynllun peilot chwe blynedd o hyd, mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi gosod contract gyda Social Finance i gyflwyno gwasanaethau ailsefydlu i oedolion gwrywaidd sy'n droseddwyr a ddedfrydir i lai na 12 mis o garchar ac a ryddheir o Garchar Ei Mawrhydi, Peterborough. Mae hyn yn darparu cyfle unigryw i ymgysylltu â grŵp o droseddwyr y mae eu cyfradd aildroseddu'n uchel ac sudd ar hyn o bryd yn derbyn dim gwasanaeth prawf statudol pan ryddheir hwy o garchar.

Dan y cynllun peilot mae Social Finance wedi comisiynu Ymddiriedolaeth St Giles a mudiadau eraill i weithio'n ddwys gyda 3,000 o droseddwyr o fewn carchar Peterborough ac wedi iddynt gael eu rhyddhau, i'w helpu i ailsefydlu yn y gymuned. Bydd canlyniadau carfan lawn gyntaf y cynllun peilot ar gael yn 2014. Bu i adroddiad ar weithredu'r cynllun peilot gyfweld pobl allweddol a oedd yn rhan yn y cynlluniau peilot. Dyma rai o'u sylwadau:

*'Cwrdd â'r troseddwyr drwy'r giât, dilyn ymlaen ar hynny, bod yno i'w cefnogi, dyna'r peth cywir i'w wneud.'*

Dirprwy Gyfarwyddwr, Carchar EM, Peterborough

*'Y manteision yw ein bod yn gwneud gwir wahaniaeth o ran aildroseddu ... bydd yn gweithio gyda grŵp o droseddwyr sy'n [cael] eu nodi fel ein bwlch mwyaf a'n blaenoriaeth fwyaf i geisio gwneud rhywbeth yn eu cylch.'*

Rheolwr Rhanbarthol ar gyfer Comisiynu, NOMS Dwyrain Lloegr

# Adran 4: Rôl y sector cyhoeddus a gwarchod y cyhoedd

**Bydd y gwasanaeth prawf sector cyhoeddus yn cadw cyfrifoldeb dros warchod y cyhoedd. Ar gyfer y troseddwyr risg uchaf, bydd hyn yn golygu cyfrifoldeb uniongyrchol dros reoli troseddwyr. Ar gyfer pob troseddwr arall, y sector cyhoeddus fydd â chyfrifoldeb dros sicrhau bod darparwyr ar gontract yn rheoli'r risg o niwed a berir i'r cyhoedd yn effeithiol. Mae'r sector cyhoeddus yn haeddu cydnabyddiaeth am y safonau proffesiynol y mae wedi'u harddangos wrth ddiogelu'r cyhoedd rhag niwed difrifol, a bwriadwn gynnal ac adeiladu ar yr arbenigedd hwnnw.**

Ar gyfer pob troseddwr, bydd gwasanaeth prawf y sector cyhoeddus yn parhau i ddarparu cyngor i lysoedd ar opsiynau dedfrydu, cynnal asesiadau risg cychwynnol, a bod yn atebol dros sicrhau bod y risg o niwed y mae troseddwyr yn ei pheri i'r cyhoedd yn cael ei rheoli'n briodol. Bydd y ffordd y bydd yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw'n amrywio yn ôl y troseddwr a'r risg o niwed yr ystyrir y mae yn ei achosi. Bydd natur mwy arbenigol y gwaith hwn a'r ffocws ar niwed difrifol yn galw am wasanaeth prawf cyhoeddus hynod fedrus, proffesiynol a chyda ffocws iddo.

Pan wneir gorchymyn cymunedol neu y caiff troseddwr ei ryddhau o garchar ar drwydded, cynhelir asesiad risg cychwynnol gan y wasanaeth prawf y sector cyhoeddus. Bydd hyn yn canfod lefel y risg y mae'r troseddwr yn parhau i'w achosi i ddiogelwch y cyhoedd. Bydd y rhai sy'n peri risg uchel o niwed difrifol yn parhau i gael eu rheoli'n uniongyrchol gan wasanaeth prawf y sector cyhoeddus, fel y gwneir ar hyn o bryd. Bydd troseddwyr sy'n dod o fewn MAPPA bob blwyddyn hefyd yn parhau i gael eu rheoli gan y partneriaid MAPPA yn y sector cyhoeddus, fel ar hyn o bryd.

Bydd pob troseddwr arall yn cael eu rheoli gan ddarparwyr ar gontract, ond bydd gwasanaeth prawf y sector cyhoeddus yn parhau i fod â chyfrifoldeb dros sicrhau bod y risg o niwed i'r cyhoedd a achosir gan y troseddwyr hyn yn cael ei rheoli'n briodol. Mae hyn yn golygu y bydd yn ofynnol i ddarparwr ar gontract fod â threfniadau effeithiol yn eu lle i reoli risg ac ar gyfer hysbysu'r sector cyhoeddus o risg gynyddol lle bo angen, gan fod y risg a achosir gan droseddwyr yn ddeinamig. Bydd y gwasanaeth prawf yn cadw mewn cysylltiad ar lefel briodol â'r darparwyr mewn perthynas â'r achosion hyn. Trafodir y berthynas rhwng y gwasanaeth prawf â darparwyr dan gontract yn fwy manwl yn adran 5.

# Adran 5: Gwaith partneriaeth effeithiol rhwng darparwyr a'r sector cyhoeddus

**Bydd rhyngweithio agos rhwng darparwyr gwasanaethau ar gystadleuaeth â'r sector cyhoeddus. Bydd gan weithwyr prawf proffesiynol rôl bwysig i'w chwarae yn naill ran y system a'r llall. Bydd gan lawer o weithwyr prawf proffesiynol cyfredol rôl i'w chwarae yn y gwasanaethau ar gystadleuaeth, lle y byddant yn canolbwyntio mwy ar ailsefydlu troseddwyr. A bydd rhai'n parhau i weithio yn y sector cyhoeddus i reoli unrhyw risg o niwed difrifol a achosir gan droseddwyr, ac i ymateb i droseddwyr sy'n torri amodau eu trwydded neu ofynion dedfrydau cymunedol.**

Dan ein cynigion, rydym yn disgwyl y bydd gweithwyr prawf proffesiynol yn gweithio yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, gan ddiogelu'r cyhoedd a chyflwyno gwasanaethau ailsefydlu, gan ddefnyddio'u sgiliau a'u profiad sylweddol o weithio gyda throseddwyr. Rydym yn glir y byddwn yn cynnal yr arbenigedd hon a phroffesiwn prawf cadarn. Bydd gofyn i'r holl ddarparwyr yn y farchnad newydd gynnal sgiliau priodol ar gyfer y gwasanaethau hyn gyda hyfforddiant effeithlon ac achredu sy'n cyfateb i'r safonau uchel sydd yn eu lle heddiw.

Byddwn yn edrych ar y ffordd fwyaf priodol o sicrhau y caiff safonau proffesiynol eu cynnal. Byddwn yn defnyddio'r ymatebion o'r ymgynghoriad blaenorol i ddatblygu dull gweithredu priodol o ran cynnal safonau proffesiynol a sicrhau ansawdd yr hyfforddiant a'r achrediad a fydd yn berthnasol ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae rhai wedi awgrymu corff proffesiynol neu sefydliad i gefnogi ymarferwyr i gynnal y safonau hyn ac rydym ni yn ceisio barn bellach ar hyn yng nghwestiynau'r ymgynghoriad ar derfyn y ddogfen.

Bydd yn bwysig bod modd i Arolygiaeth Prawf EM chwarae rôl o ran archwilio'n annibynnol y gwaith rheoli troseddwyr a'r gwaith a wneir gan ddarparwyr ym mhob sector, gan sicrhau y cynhelir y safonau a chynorthwyo i gefnogi gwelliannau parhaus o ran ymarfer.

Bydd gwasanaeth prawf y sector cyhoeddus yn cynghori'r llys ar ddedfrydu, a bydd angen dealltwriaeth glir o ba wasanaethau ailsefydlu y gall darparwyr eu cynnig, a pha ddedfryd fyddai orau o ran hwyluso'r rhain. Bydd yn gweithio gyda darparwyr a gontractiwyd i reoli'r risg o niwed difrifol a berir gan droseddwyr, y bydd y gwasanaeth prawf yn parhau'n atebol amdani. Bydd hefyd yn ffynhonnell hanfodol o gyngor ar reoli risg ar gyfer darparwyr dan gontract, a fydd angen sicrhau bod eu staff wedi'u hyfforddi i ganfod a gweithredu ar y sbardunau a allai nodi risg gynyddol o niwed difrifol.

Bydd y sector cyhoeddus a darparwyr dan gontract yn cydweithio i ymdrin ag achosion lle y bydd troseddwyr yn torri gofynion eu dedfryd neu drwydded. Bydd yn hanfodol cael eglurder o ran y paramedrau a'r sbardunau ar gyfer

cyfeirio'n ôl at y sector cyhoeddus ar gyfer rheoli risg a hefyd penderfyniadau o ran torri amodau a galw'n ôl. Bydd darparwyr yn adrodd ar dorri sylweddol ar orchmynion cymunedol, gofynion dedfrydau gohiriedig ac amodau trwyddedau i'r sector cyhoeddus, a fydd wedyn yn cynghori'r llys neu'r Ysgrifennydd Gwladol. Ar hyn o bryd caiff achosion tor-amod syml yn ymwneud â throseddwyr sy'n bwrw gofyniad cyrffyw ar ei ben ei hun, eu trin yn uniongyrchol gan y darparwr dan gontract. Wrth i ni ddatblygu ein system newydd, byddwn yn ystyried perthnasedd trefniadau tebyg dan ein cynigion ni.

Rydym yn gwbl glir y bydd perthynas agos rhwng y sector cyhoeddus a darparwyr dan gontract yn hanfodol i wneud i'r system ddiwygiedig weithio'n effeithiol. Bydd cyfathrebu clos a rhannu gwybodaeth rhwng pawb sy'n ymwneud â throseddwr yn hollbwysig. Rydym angen systemau TGCh sy'n galluogi rhannu gwybodaeth yn rhwydd, a byddwn yn gweithio gyda phob parti i ddatblygu'r dull cost-effeithiol gorau i'w roi ar waith.

## Adran 6: Dylunio strwythurol effeithlon

**Byddwn yn dylunio strwythur y gwasanaeth newydd hwn i fod mor effeithlon â phosibl. Byddwn yn comisiynu contractau dros ardaloedd daearyddol drwy swyddogaeth genedlaethol, i osgoi gormod o gymhlethdod a dyblygu yn y broses gomisiynu ac yn cydweddu'r rhain â gwasanaethau eraill lle bo'n bosibl. Trefnir y sector cyhoeddus yn y ffordd fydd yn eu alluogi orau i gyflawni ei swyddogaethau craidd.**

Credwn y bydd swyddogaeth comisiynydd cenedlaethol, a oleuir gan wybodaeth ar anghenion lleol a ddarperir gan asiantaethau cyflwyno lleol yn sicrhau bod ein cynigion yn rhai y gellir eu cyflwyno, yn fforddiadwy ac yn arddangos y gwerth gorau am arian.

Bwriadwn gomisiynu cyflwyno 'bwndeli' o wasanaethau o fewn ardaloedd contract daearyddol. Rydym yn ystyried cyflwyno strwythur o 16 o ardaloedd pecynnau contract sy'n ystyried partneriaethau presennol ac anghenion y farchnad. Gyrrir ein bwriad gan yr angen i gyflawni arbedion maint ac osgoi gormod o gymhlethdod a dyblygu, wrth sicrhau hefyd bod pob ardal yn ddigon mawr i ni allu mesur newidiadau sylweddol mewn cyfraddau aildroseddu a hwyluso talu yn ôl canlyniadau. Hefyd mae angen i'r ardaloedd fod yn ddigon mawr i gynnal darpariaeth effeithlon 'drwy'r giât', o ystyried y bydd carcharorion yn aml yn cael eu cadw mewn carchardai sydd y tu allan i'r ardal leol y byddant yn cael eu rhyddhau iddi.

Rydym eisiau cyflwyno system sy'n caniatáu cydweddu ac integreiddio agosach rhwng yr amrywiaeth o wasanaethau y mae troseddwyr yn eu defnyddio drwy gyd-gomisiynu. Mae'r ffurfwedd a gynigir yn cydweddu â ffiniau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac awdurdodau lleol ac yn cefnogi integreiddio gwasanaethau'r heddlu ac ailsefydlu troseddwyr yn awr ac yn y dyfodol. Er mwyn cyflawni graddfa ddigonol byddwn yn ystyried, lle bo angen a lle bydd y farchnad yn awgrymu, grwpio ardaloedd heddluoedd unigol â'i gilydd o fewn un ardal pecyn contract. Byddwn hefyd yn ceisio cydweddu ffiniau comisiynu cyn belled ag sy'n bosibl â gwasanaethau a ddarperir gan adrannau'r Llywodraeth, er enghraifft y Rhaglen Waith. Wrth ddylunio'r lotiau byddwn yn disgwyl i ddarparwyr roi tystiolaeth o'r hyn sy'n ffitio orau gydag anghenion lleol a threfniadau cydweithio presennol ar draws ffiniau.

Bydd yr ardaloedd pecynnau contract terfynol yn destun ymgysylltu â'r farchnad, gyda'r gwasanaeth prawf a phartneriaid. Byddwn hefyd yn ystyried y dadleuon dros drefniadau gwahanol, gan gynnwys ardaloedd daearyddol llai, os gellir rhoi sylw i'r materion a amlinellwyd uchod.


Disgwyliwn i'r rhan fwyaf o gontractau gynnwys ardaloedd daearyddol mwy na'r Ymddiriedolaethau Prawf presennol. Bydd y sector cyhoeddus hefyd yn cael ei drefnu yn y ffordd fwyaf effeithlon ar gyfer cyflawni ei gyfrifoldebau newydd - bydd hyn yn galw am lai o Ymddiriedolaethau neu strwythur gwahanol (megis un ymddiriedolaeth prawf genedlaethol neu ddarparu'n

uniongyrchol ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol). Bwriadwn ddechrau'r trosglwyddiad i' strwythur gweithredu newydd yn 2013. Rydym yn gwahodd barn ar y strwythur mwyaf effeithiol ar gyfer cyflwyno'r cyfrifoldebau hyn.

Mae ein bwriad i gomisiynu contractau drwy swyddogaeth genedlaethol yn newid o'r cynigion a amlinellwyd yn nogfen ymgynghori *'Cosbi a Diwygio: Gwasanaethau Prawf Effeithlon*, a oedd yn awgrymu datganoli cyfrifoldebau comisiynu i Ymddiriedolaethau Prawf. Clywsom ddadleuon o blaid ac yn erbyn y dull hwn o weithredu yn yr ymatebion a dderbyniwyd. Mynegodd rhai ymatebwyr bryder y gallai contractau cenedlaethol anwybyddu amrywiadau a nodweddion lleol, ac y gallent eithrio mudiadau llai nad oedd modd iddynt gwrdd â chostau bidio am gontractau o'r fath.

Fodd bynnag, gwnaed y pwynt hefyd nad yw ymateb i anghenion lleol o reidrwydd yn golygu comisiynu'n lleol, gan y gellir cydnabod amrywiaeth fel rhan o gomisiynu ar raddfa fwy, ar yr amod bod y system newydd yn gwreiddio cyflwyno lleol a phartneriaethau lleol mewn ffordd gynaliadwy. Rydym angen swyddogaeth comisiynydd a all gomisiynu'n effeithiol wasanaethau ymatebol lleol, gan hefyd gyflawni'r arbedion mwyaf posibl a gellir gwneud hynny orau drwy swyddogaeth comisiynydd cenedlaethol ar yr amod ei bod yn cael ei goleuo gan systemau cyflwyno lleol a phartneriaid yn y gwasanaeth prawf sector cyhoeddus yn darparu'r wybodaeth ar anghenion lleol.

**Ffigur 2 Darlun o'r system rheoli troseddwyr ddiwygiedig**



## Adran 7: Integreiddio â phartneriaethau lleol

**Byddwn yn llunio'r system hon i wneud y defnydd gorau o arbenigedd lleol, ac i integreiddio â strwythurau lleol presennol, gan gynnwys rhai statudol fel y rhai sy'n sail i MAPPA a Thimau Troseddau Ieuenctid. Bydd yn rhaid i ddarparwyr posibl ddangos tystiolaeth o'r modd y byddent yn cynnal partneriaethau lleol mewn contractau. Byddwn yn sicrhau bod gan wasanaeth prawf y sector cyhoeddus arweinwyr lleol yn eu lle a bydd y system ddiwygiedig yn cefnogi gweithredu trefniadau IOM effeithiol.**

I gyflawni gostyngiadau o ran aildroseddu, bydd yn hollbwysig i gomisiynu gwasanaethau ailsefydlu gael ei oleuo gan wybodaeth ar anghenion lleol. Hefyd bydd angen i ddarparwyr weithio'n agos gyda'r holl bartneriaid lleol a sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn cyd-redeg â gwasanaethau lleol eraill.

Rydym eisiau adeiladu ar yr wybodaeth leol a'r cysylltiadau sydd eisoes yn bodoli o fewn Ymddiriedolaethau Prawf. Drwy'r swyddogaeth gomisiynu, byddwn yn annog darparwyr i wneud defnydd o arbenigedd lleol drwy greu partneriaethau ac is-gontractio, yn enwedig gyda'r sector gwirfoddol a chymunedol ac asiantaethau darparu lleol. Byddwn yn gweithio i sicrhau y caiff y contractau hyn eu rheoli'n deg ac yn gynaliadwy, fel y gall yr amrediad ehangaf bosibl o fudiadau chwarae eu rhan wrth Weddnewid Ailsefydlu.

Yn y broses o ddewis darparwyr i'r dyfodol, bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cynnwys fel rhan o'r gwerthusiad ffurfiol, ofyniad i ddarparwyr ddangos tystiolaeth o'r ffordd y byddent yn cynnal a datblygu rhwydweithiau a phartneriaethau lleol ac yn benodol trefniadau presennol o ran Rheoli Troseddwyr yn Integredig. Bydd elfen o gyllid darparwyr mewn perygl, gyda thaliad llawn yn dibynnu ar eu llwyddiant wrth leihau aildroseddu. Bydd o fudd iddynt feithrin partneriaethau lleol a defnyddio gwasanaethau a gomisiynwyd gan fudiadau eraill sy'n helpu i gyflawni'r canlyniadau hyn.

Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu'n cyflwyno cyfle ar gyfer arweiniad lleol i symbylu'r heddlu, awdurdodau lleol, Gwasanaeth Erlyn y Goron a llysoedd i gydweithio i atal troseddu a lleihau aildroseddu. Mae angen i'n gwasanaethau ailsefydlu fod yn ymatebol i'r newidiadau hyn a thrwy ddylunio ardaloedd pecynnau contract sy'n cydweddu â ffiniau heddluoedd y PCC rydym eisiau sicrhau y gall mesurau i ostwng troseddau ac ailsefydlu troseddwyr gael eu hintegreiddio'n effeithiol i gyflawni'r canlyniadau gorau.

Bydd PCC hefyd yn chwarae rôl hanfodol yn lleol drwy ddal partneriaid lleol yn gyfrifol drwy'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a rhagwelwn y gallai'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ffurfio rhan o'r partneriaethau hyn. Bydd PCC hefyd yn comisiynu gwasanaethau ar lefel leol gydag asiantaethau lleol eraill (er enghraifft comisiynwyr iechyd lleol).

Ein bwriad yw y bydd ein model marchnad newydd yn hwyluso cyd-gomisiynu â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Bydd yn ategu, ac yn hygyrch i

gomisiynwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill, llawer ohonynt yn uniongyrchol berthnasol i'r amcan o leihau aildroseddu, megis camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, llety, perthnasoedd teuluol, cyflogaeth a sgiliau.

Mae rhai o achosion sylfaenol troseddu, megis chwalu cartref, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, diweithdra dros genedlaethau, plentyndod a dreuliwyd mewn gofal, iechyd meddwl a methiant addysgol yn effeithio ar adrannau eraill y Llywodraeth, nid yr Weinyddiaeth Cyfiawnder yn unig.

Bydd angen i'n cynlluniau i ddiwygio ategu'r ddarpariaeth brif ffrwd bresennol, gan gynnwys y gefnogaeth o ran cyflogaeth a gynigir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau drwy'r Rhaglen Waith a gwasanaethau iechyd prif ffrwd ac arbenigol.

Bydd gwybodaeth ar anghenion lleol gan asiantaethau cyflwyno presennol, gan gynnwys yr heddlu a gweithwyr proffesiynol prawf ar draws yr holl sectorau'n hanfodol o ran gwneud i' system weithio'n effeithiol. Rydym eisiau defnyddio'r arbenigedd hon wrth i ni weddnewid ein hagwedd tuag at ailsefydlu.

Mae ymrwymiad ac arbenigedd cronedig trefniadau IOM wedi helpu i reoli effaith y troseddwyr gwaethaf mewn ardaloedd lleol. Rydym wedi ymrwymo na fyddwn, wrth wneud y newidiadau hyn yn amharu ar drefniadau gwaith amlasiantaethol effeithiol yn lleol, gan gynnwys trefniadau MAPPA ac IOM, yn ogystal â pherthnasoedd gyda Thimau Troseddau Ieuenctid sydd mor bwysig i'r rhai sy'n trosglwyddo o'r system ieuenctid i'r system oedolion.

Bydd hefyd yn ofynnol i ddarparwyr gadw set data craidd sylfaenol ar gyfer y garfan o unigolion yn eu hardal ddaearyddol a bydd y data hwn yn cynyddu gallu pob comisiynydd i dargedu darpariaeth yn erbyn angen ar lefel leol. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y Llywodraeth i ganfod y gofynion o ran data craidd i sicrhau y nodir y gofynion data sylfaenol ar gyfer pob darparwr ym model y farchnad i'r dyfodol.

I helpu i gefnogi'r diwygiadau arfaethedig, byddwn yn lansio 'Lab Data Cyfiawnder' drwy'r wlad. Bydd darparwyr yn cael mynediad at data o ansawdd uchel ar aildroseddu yn benodol i'r grŵp o droseddwyr y maent wedi bod yn gweithio gyda hwy. Bydd hyn yn caniatáu iddynt ganolbwyntio ar yr hyn sy'n gweithio, dangos effeithlonrwydd eu dull gweithredu yn well a lleihau aildroseddu yn eu hardal yn y pen draw.

Byddwn yn gweithio gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth, darparwyr a grwpiau eraill â diddordeb i sicrhau bod rhannu data'n digwydd mewn ffordd sy'n ddiogel ac yn diogelu hawliau y rhai y rhennir eu data (gan gynnwys dioddefwyr), gan adeiladu ar y gwaith sydd eisoes yn digwydd i ddatblygu Cod Ymarfer ar gyfer rhannu data yng nghyswllt monitro gofynion gorchmynion cymunedol yn electronig.

# Adran 8: Fforddio’r system ddiwygiedig

**Rhaid i ni sicrhau bod cyflwyno'r cynigion hyn yn fforddiadwy ac yn arddangos y gwerth gorau am arian.**

Fel rhan o ymrwymiadau ariannol y Llywodraeth, mae angen i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wneud arbedion sylweddol. Mae'r setliad ar gyfer cyfnod Adolygiad Gwariant 2010 yn gofyn am arbedion o dros £2 biliwn erbyn 2014/15. Cynhyrchir y rhan fwyaf o'r arbedion hyn drwy arbedion effeithlonrwydd. Caiff yr arbedion eu rhannu'n weddol gyfartal rhwng arbedion rheng-flaen a chefn swyddfa, gyda chyflogau wedi rhewi, cau llysoedd a gwell gorfodi dirwyon yn creu gweddill yr arbedion effeithlonrwydd.

Fodd bynnag, credwn y gall y diwygio ganiatáu i ni gyflawni gwell canlyniadau ac arbedion yn y tymor hwy.

Er y bydd pwysau o ganlyniad i ymestyn ymyriadau ailsefydlu y gellir eu gorfodi i droseddwyr a ryddheir o dedfrydau byr o garchar ac sydd wrthi'n trosglwyddo, credwn y gellir cydbwyso'r costau hyn drwy gystadlu gwasanaethau er mwyn rhyddhau arbedion a gostwng costau unedau ar draws y system.

Yn y tymor hwy, mae gan ostyngiadau mewn cyfraddau aildroseddu'r potensial i gyflwyno gostyngiad yn y galw ar y system cyfiawnder troseddol yn ei chyfanrwydd. Bydd yr adran yn datblygu'r cynigion polisi a gweithredu i sicrhau eu bod yn fforddiadwy ac yn gyson â cynlluniau'r Llywodraeth i leihau'r diffyg.

# Rhan B: Ymestyn ein rhaglen ddiwygio

## Cyflawni'r mwyaf posibl gyda gwariant y Llywodraeth ar droseddwyr

Mae'r ffactorau sy'n arwain unigolyn i fywyd o droseddu'n niferus iawn ac yn amrywio o achos i achos. I rai, gall fod yn gyfuniad o ddyled, diweithdra, diffyg sgiliau a digartrefedd. I eraill, gall agweddau gwrthgymdeithasol, sgiliau meddwl gwael ac ymddygiad anghyfrifol neu fyrbwyll, materion iechyd meddwl, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau fod yn ffactorau o bwys.

Mae'n dilyn, felly, nad oes un ateb a fydd yn cynnal ailsefydlu pob troseddwr a bydd angen i ddarparwyr fynd i'r afael â'r problemau y mae pob troseddwr yn eu hwynebu ar sail unigol. Bydd hyn yn aml yn golygu hwyluso mynediad at ystod o wasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan Adrannau eraill y Llywodraeth ac asiantaethau.

Dylai ein dull gweithredu helpu i gau'r bwlch a chysylltu troseddwyr â'r gwasanaethau hanfodol hyn yn lleol. Fodd bynnag, o ystyried yr effaith ar adrannau eraill y Llywodraeth, hoffem ddefnyddio'r ymgynghoriad hwn i adeiladu ar gydweithio presennol rhwng adrannau ac edrych sut i gydweddu cynlluniau ar gyfer y darparwyr newydd i gefnogi cyflwyno neu fynediad at ddarpariaeth arbenigol a phrif ffrwd ar draws ystod o wasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder eisoes yn treialu dull gweithredu lle y mae canlyniadau o ran cyflogaeth gynaliadwy a lleihau aildroseddu wedi'i huno drwy gyfuno taliad gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder i gyllid y Rhaglen Waith.

Gallai enghraifft bellach ddeillio o ffurfioli gwasanaethau "drwy'r giât" am y tro cyntaf ar gyfer y grŵp dedfrydau o garchar dan 12 mis. Gallai ein cynigion gynnig i gomisiynwyr gwasanaethau gwella yn dilyn caethiwed i gyffuriau neu alcohol, gyfle i uno darpariaeth mewn ffordd fyddai'n darparu gwasanaeth drwy ofal i unigolyn wrth iddynt wella o'u caethiwed ac ymatal rhag cyflawni troseddau. Gallai hyn leihau'r gorbenion ar gyfer rheoli achos yr unigolyn, gan gynnig arbedion i'r pwrs cyhoeddus. Gellid canfod enghreifftiau tebyg ar draws ystod o ganlyniadau cyfiawnder cymdeithasol megis sgiliau, llety, perthnasoedd teuluol ac iechyd meddwl.

Mae gennym ddiddordeb mewn barn ynghylch a allai gwella cysoni a chydlynu gwariant ar draws y Llywodraeth ar droseddwyr a chryfhau cynlluniau ar gyfer gweithio ar y cyd, arwain at well canlyniadau o ran ailsefydlu, ac os felly, sut orau i wneud hynny.

**Cwestiwn B1: Sut allwn ni gael y canlyniadau gorau o adnoddau'r Llywodraeth a'r sector cyhoeddus ar y cyd?**

**Cwestiwn B2: Sut allwn ni ddefnyddio diwygio gwasanaethau i droseddwyr yn y gymuned i wella'r ystod ehangach o ganlyniadau cyfiawnder cyhoeddus ar gyfer unigolion?**

## Adeiladu hyblygrwydd newydd i gyflwyno gorchmynion cymunedol

Ers rhoi Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ar waith, bu un gorchymyn cymunedol ar gyfer troseddwyr 18 oed a throsodd a all bellach gynnwys hyd at 14 o ofynion yn dibynnu ar y trosedd a'r troseddwr. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys: talu'n ôl i'r gymuned, lle bydd troseddwyr yn gwneud gwaith di-dâl, cyrffyw a gaiff ei fonitro'n electronig, gofynion gweithgaredd a rhaglenni a luniwyd i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol a gofynion triniaeth am gyffuriau, alcohol a iechyd meddwl.

Fel arfer, po fwyaf difrifol fydd y trosedd a'r mwyaf helaeth fydd anghenion y troseddwr yna'r mwyaf o ofynion a roddir. Bydd y rhan fwyaf o orchmynion yn cynnwys un neu ddau o ofynion ond mae pecynnau o sawl un ar gael lle bo angen. Bydd y llys yn teilwra'r gorchymyn fel bo'n briodol ac yn derbyn arweiniad gan adroddiad cyn-dedfrydu.

Yr ydym eisoes wedi cynnig yn y Mesur Troseddau a'r Llysoedd sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd, i sicrhau bod pob gorchymyn cymunedol yn cynnwys gofyniad cosbol oni fo amgylchiadau eithriadol. Bydd yn bwysig i'r Llys nodi'n glir beth yw'r gosb.

Mae tystiolaeth sy'n awgrymu y gall gorchmynion cymunedol gael effaith ailsefydlu ar droseddwyr. Bwriadwn adeiladu ar hyn i sicrhau y gall gorchmynion cymunedol gyflawni lefelau hyd yn oed yn uwch o ailsefydlu. Rydym eisiau sicrhau bod digon o hyblygrwydd yn y fframwaith dedfrydu i ganiatáu i ddarparwyr dan gontract gyflwyno'r dedfrydau a osodwyd gan y llys mewn ffordd sydd fwyaf effeithiol i leihau aildroseddu. Mater i'r llysoedd yw penderfynu ar ddedfryd i droseddwyr unigol. Fodd bynnag, rydym eisiau sicrhau bod gan ddarparwyr yr hyblygrwydd i gyflwyno gofynion gorchymyn cymunedol mewn ffordd sy'n gwneud y gorau o'r effaith ar y troseddwr o ran ailsefydlu.

Yn y modd hwn, rydym yn awyddus i adeiladu ar yr hyblygrwydd yr ydym wedi ei ganiatáu eisoes i reolwyr troseddwyr wrth ystyried gorchmynion cymunedol. Dan newidiadau a gyflwynwyd gan Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi 2012, gall y llysoedd roi gorchymyn cymunedol gydag un gofyniad bod troseddwr yn mynychu rhaglen achrededig ond mae gan y rheolwr troseddwyr y dewis o fewn y cylch gorchwyl hwn gan y llysoedd i sicrhau bod y rhaglen benodol yr un fwyaf priodol ar gyfer y troseddwr hwnnw. Rydym eisiau edrych a oes meysydd eraill lle y gellid rhoi mwy o ddisgresiwn i ddarparwyr deilwra gofynion penodol a osodir gan y llys i droseddwyr penodol gan fod eu risgiau a'u hanghenion hwy yn newid dros amser.

**Cwestiwn B3: A ddylid adeiladu hyblygrwydd ychwanegol i'r fframwaith dedfrydu cymunedol i gryfhau effaith gorchmynion cymunedol o ran ailsefydlu, ac ail-integreiddio troseddwyr i gymdeithas?**

# Rhan C: Cwestiynau ar Fanyleb y System

Mae'r adran hon yn nodi cyfres o gwestiynau manwl yr hoffem gael barn ymarferwyr, dedfrydwyr, darparwyr posibl a rhanddeiliaid eraill cyfredol wrth i ni roi trefn derfynol ar ddyluniad gweithredol y system hon.

Gellir canfod manylion ynghylch sut i ymateb i'r ymgynghoriad ar ddechrau'r papur hwn, dan yr adran a enwir 'Ynghylch y cwestiynau ymgynghori yn y ddogfen hon'. Y dyddiad olaf ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad hwn yw 22 Chwefror 2013.

## Manyleb y contract

**Cwestiwn C1**: Rydym yn bwriadu cyflwyno 16 o Ardaloedd Pecynnau Contract. Ydych chi'n meddwl mai dyma'r rhif cywir i gefnogi cyflwyno gwasanaethau ailsefydlu'n effeithlon? A oes gennych unrhyw farn ynglŷn â sut y gellid llunio ffiniau'r Ardaloedd Pecynnau Contract?

**Cwestiwn C2**: Pa strwythur talu ar gyfer talu yn ôl canlyniadau fyddai'n cynnig y math iawn o gydbwysedd rhwng ysgogi darparwyr a throsglwyddo risg ariannol?

**Cwestiwn C3**: Pa fesurau a strwythurau prisio fyddai'n sbarduno darparwyr i weithio gyda'r holl droseddwyr, gan gynnwys y rhai mwyaf mynych?

**Cwestiwn C4**: Sut ddylem ni nodi gofynion goruchwylio'r sector cyhoeddus mewn contractau, i osgoi biwrocratiaeth ond sicrhau trefniadau effeithiol i warchod y cyhoedd?

**Cwestiwn C5**: Rydym eisiau sbarduno darpariaeth drwy'r giât, ond bydd rhai troseddwyr yn gwasgaru i wahanol rannau o'r wlad yn dilyn eu rhyddhau. Beth fyddai'r ffordd orau i roi cyfrif ar hynny wrth ddylunio'r contract?

**Cwestiwn C6:** Pa fecanweithiau all gael eu defnyddio i sbarduno perfformiad rhagorol a rheoli perfformiad gwael yn gadarn i sicrhau gwerth da am arian?

## Rheoli'r gadwyn gyflenwi

**Cwestiwn C7**: Pa gamau ddylem ni eu cymryd i sicrhau bod darparwyr arweiniol yn rheoli a chynnal cadwyn gyflenwi wirioneddol amrywiol mewn modd teg, cynaliadwy a thryloyw?

**Cwestiwn C8**: Pa broses ddylid ei sefydlu i sicrhau y rhoddir sylw i gamreoli'r gadwyn gyflenwi?

**Cwestiwn C9**: Sut allwn ni sicrhau bod modd i'r sector gwirfoddol a chymunedol gymryd rhan yn y system newydd mewn ffordd deg ac ystyrlon?

## Newidiadau deddfwriaethol

**Cwestiwn C10**: Sut allwn ni ddefnyddio goruchwyliaeth statudol wrth ryddhau o garchar i sicrhau bod troseddwyr yn ymgysylltu'n effeithiol ag ailsefydlu.

**Cwestiwn C11**: Sut allwn ni sicrhau bod canlyniadau am beidio â chydymffurfio yn effeithiol, heb gynnwys cost ychwanegol sylweddol?

## Dyluniad y system

**Cwestiwn C12**: O ystyried ein cynigion ar gyfer y strwythur comisiynu a'r cyfrifoldebau arfaethedig ar gyfer y sector cyhoeddus, pa fath o strwythur cyflwyno fyddai fwyaf priodol ar gyfer gwasanaeth prawf y sector cyhoeddus?

**Cwestiwn C13**: Beth arall allwn ni ei wneud i sicrhau bod y system newydd yn gwneud y defnydd gorau o arbenigedd a threfniadau lleol, ac yn integreiddio â strwythurau a darpariaeth lleol presennol.

**Cwestiwn C14**: Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu'n chwarae rhan allweddol yn ein diwygiadau. Sut orau allwn ni wneud y mwyaf o'u mewnbwn/cyswllt hwy a phartneriaid allweddol eraill yn lleol?

**Cwestiwn C15**: Sut allwn ni sicrhau y caiff safonau proffesiynol eu cynnal a bod ansawdd hyfforddiant ac achredu'n cael ei sicrhau? Awgrymwyd corff proffesiynol neu sefydliad fel un ffordd o gyflawni hyn. Beth yw eich barn am fanteision y dull hwn ac am ochr ymarferol sefydlu trefniadau o'r fath, gan gynnwys sut y gellid cwrdd â'r costau?

**Cwestiwn C16**: Pa rôl all yr Arolygiaeth Prawf ei chwarae orau o ran sicrhau ymarfer effeithiol a safon uchel o gyflwyno gwasanaeth?

## Goblygiadau cydraddoldeb

**Cwestiwn C17**: Sut allwn ni ddefnyddio'r model comisiynu newydd hwn, gan gynnwys talu yn ôl canlyniadau, i sicrhau gwell canlyniadau i droseddwyr sy'n fenywod ac eraill gydag anghenion cymhleth neu nodweddion gwarchodedig?

**Cwestiwn C18**: Beth yw effeithiau tebygol ein cynigion ar grwpiau gyda nodweddion gwarchodedig? Hoffem gael unrhyw enghreifftiau, astudiaethau achos, ymchwil neu fathau eraill o dystiolaeth i gefnogi'ch barn, os gwelwch yn dda.

## Cynigion ar gyfer Diwygio

**Cwestiwn C19**: A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach am ein cynigion ar gyfer Gweddnewid Ailsefydlu yn y ddogfen hon

TSO
information & publishing solutions

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa) ac mae ar gael:

**Ar-lein**
www.tsoshop.co.uk

**Post, ffôn, ffacs ac e-bost**
TSO
Blwch Post / PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Archebion dros y ffôn/ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522
Gallwch archebu drwy ffonio'r Llinell Seneddol Frys Cost Isel ar 0845 7 023474
Archebion ffacs: 0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn testun: 0870 240 3701

**Siop y Senedd**
12 Bridge Street, Parliament Square,
Llundain SW1A 2JX
Archebion dros y ffôn / ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion ffacs: 020 7219 3866
E-bost: shop@parliament.uk
Y Rhyngrwyd: http://www.shop.parliament.uk

**TSO@Blackwell ac asiantau achrededig eraill**

ISBN 978-0-10-177162-7

**Designer to add Bar code**

9 780101 771627